# Argymhellion cychwynnol Grŵp Arbenigol Monitro a Thystiolaeth 30 wrth 30 Cymru

## Crynodeb gweithredol

Er mwyn cefnogi adferiad natur, datblygodd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru gyfres o gamau gweithredu ar y cyd. Dewiswyd y targed 30 wrth 30 fel ffocws strategol i ystyried ble a sut y gellid cyflymu camau a thrwy hynny warchod a rheoli o leiaf 30% o'n tir, dŵr croyw a'n moroedd yn effeithiol o ran bioamrywiaeth erbyn 2030. Mae'n un o blith nifer o dargedau sy'n rhan o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF).

Mae fframweithiau monitro a fframweithiau tystiolaeth fforddiadwy ac effeithiol yn hollbwysig i olrhain ein cynnydd tuag at y targed 30 wrth 30 a'r uchelgais natur-bositif mwy hirdymor. Mae'r fframweithiau hyn yn sail i benderfyniadau ac maent yn galluogi dull rheoli addasol sy'n angenrheidiol i greu ecosystemau cadarn a all addasu i bwysau ehangach, fel newid hinsawdd. Mae angen i'r fframweithiau hyn gael eu llywio gan arfarniad o anghenion data, gan adeiladu ar arferion da a setiau data sy'n bodoli eisoes, a nodi'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol. Byddwn yn creu cyfleoedd ar gyfer gwell cydweithredu, rôl gynyddol i wyddor dinasyddion a gwneud gwell defnydd o ddatblygiadau technolegol.

Sefydlwyd y grŵp arbenigol monitro a thystiolaeth Archwilio Dwfn (y grŵp) ym mis Mai 2023 mewn ymateb i argymhellion Archwilio Dwfn Bioamrywiaeth 2022.

Cyfarfu'r grŵp yn fisol i:

- Ddatblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed 30 wrth 30 a llywio'r broses o flaenoriaethu camau gweithredu;
- Parhau â'r gwaith sydd ei angen i sefydlu fframweithiau monitro a thystiolaeth gadarn a phriodol ar gyfer 30 wrth 30 a thargedau adfer natur ehangach, gan adeiladu ar y rhai sydd eisoes ar waith.

Tynnwyd aelodaeth o Lywodraeth Cymru, asiantaethau, y byd academaidd, cyrff anllywodraethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan ddod â meysydd allweddol o arbenigedd technegol, gwaith polisi a darpariaeth ynghyd.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu barn y grŵp arbenigol ac yn amlinellu'r cynnydd tuag at yr argymhelliad monitro a thystiolaeth yn yr Archwiliad Dwfn. Gwnaed gwaith y grŵp o dan y saith thema ganlynol:

- Deall ac adolygu monitro presennol yng Nghymru,
- Diffinio cydrannau monitro'r targed 30 wrth 30 (targed tri y GBF),
- Datblygu fframwaith monitro,
- Nodi ffynonellau a bylchau tystiolaeth,
- Nodi anghenion datblygu,
- Ystyried opsiynau ar gyfer cyflawni,
- Nodi argymhellion a'r camau nesaf.

Mae'r adroddiad yn archwilio'r themâu a drafodwyd, y cynnydd a wnaed hyd yma a'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg, ac yna'r camau nesaf.

Man cychwyn cychwynnol ar gyfer gwaith oedd deall yr amrywiaeth eang o fonitro sy'n cael ei wneud yng Nghymru er mwyn helpu i lywio'r dull gweithredu tuag at y targed 30 wrth 30 a nodi cyfleoedd.

Archwiliodd y grŵp ystod o fodelau cysyniadol i sicrhau bod gan unrhyw fframwaith y potensial i fynd i'r afael ag anghenion tystiolaeth ar ystod o raddfeydd wrth ystyried egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a'r gyrwyr a'r pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd.

Dewiswyd ystod o fetrigau posibl yn seiliedig ar fesuradwyedd posibl, cywirdeb manwl, cysondeb a sensitifrwydd. Fe'u rhannwyd yn dri maes, pob un â rôl benodol i'w chwarae wrth werthuso:

- **Cyflawni** – sicrhau ein bod yn glir dros gyrraedd targed tri.
- **Olrhain** – darparu map clir o gynnydd wrth gyflawni ar draws ystod o agweddau ar darged tri.
- **Sicrwydd Canlyniadau** – sicrhau bod canlyniadau'n cynhyrchu'r effaith a ddymunir.

Nodwyd problemau a heriau tystiolaeth a fyddai'n effeithio ar gyflawni, mae'r rhain yn gofyn am waith datblygu pellach cyn y gellir cynhyrchu opsiynau wedi'u costio. Mae'r meysydd blaenoriaeth yn cynnwys y canlynol:

- *cynhyrchu tystiolaeth* gan ddefnyddio dulliau traddodiadol ac arloesol.
- *casglu tystiolaeth a rhannu*. Yn allweddol i lwyddiant mae datblygu, gweithredu a chynnal llwyfannau tystiolaeth cadarn.
- mae angen mecanwaith cadarn ond syml ar gyfer gwerthuso *rheolaeth effeithiol* a gymhwysir ar draws ardaloedd gwarchodedig a Mesurau Cadwraeth Eraill yn Seiliedig ar Ardal (OECMs) i gwmpasu'r amrywiaeth fawr bosibl o ddulliau rheoli.
- o ystyried yr ystod eang o bartneriaid posibl y bydd angen iddynt weithio ar y cyd, mae angen sefydlu *llywodraethu* effeithiol trwy sefydlu rolau a chyfrifoldebau clir.
- bydd angen *adnoddau* ychwanegol ac ail-alinio adnoddau cyfredol i gefnogi cyflawni'r gwaith hwn.

Mae'r grŵp yn nodi yn Nhabl 1 y fframwaith monitro a argymhellir i werthuso targed tri ac yn Nhabl 2 y ffynonellau tystiolaeth a argymhellir sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni targed tri. Efallai y bydd gan y metrigau a awgrymir oblygiadau gwahanol ar draws y parthau amgylcheddol, nid yn unig o ganlyniad i'r ffordd y mae prosesau ecolegol yn gweithio mewn amgylcheddau gwahanol ond hefyd o ganlyniad i hanes casglu tystiolaeth yn yr amgylcheddau hyn.

# Argymhellion y fframwaith monitro

Tabl 1: Fframwaith monitro a argymhellir i werthuso cyflawni targed 3.

| Math o fetrig | Metrig ar gyfer ardaloedd gwarchodedig ac OECMs | Ffynhonnell data | Defnydd |
|---|---|---|---|
| Cyflawni | Ardal o dir a dŵr croyw sy'n bodloni'r meini prawf cynhwysiant.<br><br>Ardal o'r môr sy'n bodloni'r meini prawf cynhwysiant. | Mae angen datblygu a gweithredu seilwaith data. | Mesur o gyflawni'r targed o 30%, sy'n dangos pa gyfran o Gymru ar draws tir, dŵr croyw, môr sydd bellach yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant fel ardal warchodedig neu OECM sy'n cael ei rheoli'n effeithiol. |
| Tracio | Ardal warchodedig sy'n cael ei hystyried fel ardal sy'n cael ei rheoli'n effeithiol a'r ardal ar lwybr at reolaeth effeithiol.<br><br>Mae data ardal OECM wedi'i ddosbarthu'n effeithiol fel un a reolir yn effeithiol a'r ardal ar lwybr at reoli effeithiol. | Mae angen datblygu a gweithredu seilwaith data yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymarfer astudiaeth achos. | Mesur olrhain sy'n dangos yr ardal warchodedig a'r OECMs sydd naill ai bellach wedi'u cynnwys yn y targed cyflawni o ganlyniad i gyflawni rheolaeth effeithiol neu sydd ar lwybr at gyflawni rheolaeth effeithiol. |
| | Cysylltedd mewn amgylcheddau dŵr croyw, daearol a morol. | I'w ddatblygu - bydd hyn yn dibynnu ar natur y metrigau a ddefnyddir. | Mesur olrhain sy'n dangos y newidiadau i gysylltedd wrth i gynnwys ardaloedd ar gyfer targed tri ddatblygu. |
| | Cynrychiolaeth ecosystem. | I'w ddatblygu. | Mesur olrhain sy'n archwilio sut mae cynrychiolaeth ecosystemau yn nharged tri yn esblygu wrth i'r gweithredu ddatblygu. I'w weithredu dim ond os gellir nodi mesur addas. |
| Canlyniadau | Bioamrywiaeth ac integredd ecosystemau lefel Cymru | Cyfuniad posibl o ddata cynllun gwyliadwriaeth bioamrywiaeth lefel y DU lle mae tueddiadau lefel Cymru ar gael, yn ogystal â rhagor o ddata bioamrywiaeth neu swyddogaeth ecosystemau. Pob un angen gwaith datblygu. | Mesur sicrwydd i archwilio sut mae bioamrywiaeth ehangach yn newid wrth i weithredu 30 wrth 30 ddatblygu.<br>I'w ddatblygu ymhellach yn dilyn gwaith Arsylwi ar y Ddaear. |

## Argymhellion fframwaith tystiolaeth

Tabl 2: Ffynonellau tystiolaeth a argymhellir sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni targed 3.

| Math o fetrig | Metrig ar gyfer ardaloedd gwarchodedig ac OECMs | Ffynhonnell dystiolaeth |
|---|---|---|
| Cyflawni | Ardal o dir a dŵr croyw sy'n bodloni'r meini prawf cynhwysiant.<br><br>Ardal o'r môr sy'n bodloni'r meini prawf cynhwysiant. | Tystiolaeth ar y math o safle (ardaloedd gwarchodedig, OECM) a'i ardal sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cynhwysiant. |
| Tracio | Ardal warchodedig sy'n cael ei hystyried fel ardal sy'n cael ei rheoli'n effeithiol a'r ardal ar lwybr at reolaeth effeithiol.<br><br>Mae data ardal OECM wedi'i ddosbarthu'n effeithiol fel un a reolir yn effeithiol a'r ardal ar lwybr at reoli effeithiol. | Tystiolaeth ar reoli ardaloedd gwarchodedig neu OECM yn effeithiol, gan gynnwys:<br>• Y math a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer yr ardal.<br>• Amcanion cadwraeth yr ardal.<br>• Gweithredu mesurau rheoli ar gyfer yr ardal.<br>• Graddau, natur, addasrwydd ac amlder y monitro a wneir ar gyfer yr ardal.<br>• Graddau cyflawni'r amcanion cadwraeth.<br>• Lefel hyder wrth asesu cyflawniad amcanion cadwraeth. |
| | Cysylltedd | I'w gadarnhau - hyd nes y cytunir ar fesur cysylltedd. |
| | Cynrychiolaeth ecosystemau | I'w gadarnhau - hyd nes y cytunir ar fesur cynrychiolaeth. |
| Canlyniad | Integredd a Bioamrywiaeth ac Ecosystemau ar lefel Cymru. | Data cynllun cadw golwg ar fioamrywiaeth lefel y DU lle mae tueddiadau lefel Cymru ar gael ynghyd ag anghenion tystiolaeth clir yn dilyn gwaith datblygu pellach ynghylch swyddogaeth ecosystem neu integredd sy'n gysylltiedig â datblygiadau Arsylwi Daear. |

Byddai sefydlu cymuned ymarfer i gynyddu cydweithredu a goruchwylio a chydlynu darpariaeth y ffrydiau gwaith yn cefnogi gweithredu'r fframwaith. Datblygodd y grŵp egwyddorion allweddol i lywio'r camau nesaf wrth eu cyflawni. Y gobaith yw y bydd yr egwyddorion hyn, ynghyd â'r fframwaith a argymhellir, y meysydd datblygu a'r cydweithio arfaethedig yn cyfrannu at y map llwybr ar gyfer 2030.

## Egwyddorion cyflawni

Yn ystod y trafodaethau , nodwyd nifer o egwyddorion sy'n dod i'r amlwg ac fe'u crynhoir isod.

- Ymgysylltu â chyflawni drwy eraill:
  Mae agwedd gymdeithasol glir i'r targed ac mae angen i ni sicrhau bod systemau ar waith i ymgysylltu ag eraill mewn ffyrdd effeithiol ac ystyrlon. Sicrhau bod cymunedau lleol a'u sgiliau a'u gwybodaeth yn gallu bod yn rhan o'r broses o nodi cyfleoedd a chyfarwyddo darpariaeth.
- Sicrhau llywodraethu teg:
  Bydd llywodraethu teg fel y'i diffinnir gan y GBF yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar gynrychiolaeth, gwneud penderfyniadau a dosbarthu sy'n ymwneud â gwaith y grŵp hwn wrth symud ymlaen.

- Rhannu data galluogi:
  Mae sicrhau bod data digonol effeithiol ar gael yn allweddol i alluogi darparu gwybodaeth ar lawr gwlad a chynllunio ar lefel genedlaethol. Mae sicrhau bod egwyddorion FAIR yn cael eu mabwysiadu yn ein data yn allweddol h.y. y gallu i ddod o hyd iddo, hygyrchedd, y gallu i ddefnyddio a chyfnewid, a’i ailddefnyddio. Mewn rhai achosion, bydd angen i hyn gael ei gefnogi gan arbenigwyr pwnc i alluogi defnydd effeithiol.
- Tracio cynnydd:
  Gall newid ecosystemau gymryd amser, fod yn gymhleth ac yn aml mae'n heriol. O ystyried materion o'r fath, bydd angen i ni sicrhau bod ein metrigau yn ddigon sensitif i ddechrau dangos newid cynnar i helpu i fapio a deall cynnydd. Bydd tracio o'r fath hefyd yn galluogi cyfathrebu'r llwybr at gyflawni.
- Deall llinellau sylfaen:
  Er mwyn deall sut rydym yn symud ymlaen, mae angen dealltwriaeth glir o'n llinell sylfaen y gallwn olrhain cynnydd yn ei herbyn.
- Bod yn realistig dros gyflawni:
  Mae cydnabyddiaeth ar y cyd bod angen i gyflawni fod o fewn cyfyngiadau cyllidol tynn ynghyd â'r cyfyngiadau amser ymarferol sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Fodd bynnag, mae cyflenwi yn golygu costau a bydd angen adnoddau priodol.
- Cydnabod targed tri fel rhan o gyfres o dargedau:
  O ystyried y gyfres o dargedau a osodwyd o dan y GBF, mae'n synhwyrol peidio â rhoi sylw i darged tri ar wahân ond fel rhan o gyfres ehangach o dargedau, pob un yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar weithredu neu ganlyniadau gan anelu at gyflawni gweledigaeth 2050.

Awduron:

C. Davies[1], D . Lloyd[1], K. Stothard[2], S. Spode[2], J. Skates[2], K. Wade[2], D. Allen[1], T. Hatton-Ellis[1], M. Camplin[1], R. Lucas[3], J. Bailey[4], K. Medcalf[5], C. Cheffings[6], J. Davies[7], R. Price[7], A. Rowe[8], S. Smart[9], R. MacDonald-Lofts[10], J. Hawley[10], A. Smith[11], M. MacDonald[11], F. Burns[11], K. Boughey[12], D. Hill[13], M. Rhydderch[1], H. York[1]

[1]Cyfoeth Naturiol Cymru
[2]Llywodraeth Cymru
[3]Prifysgol Aberystwyth
[4]Cymdeithas Ecolegol Prydain
[5]Environment Systems Ltd.
[6]Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
[7]Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
[8]Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru
[9]Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU
[10]Cyswllt Amgylchedd Cymru
[11]RSPB
[12]Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
[13]Cyngor Abertawe